# Y Trydydd Cynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (220)

**Dyddiad: Dydd Mawrth 12 Hydref 2010**
**Amser: 13.30**

### Eitem 1: Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

………………………

**14.26**
**Cwestiwn Brys 1**

**Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cael ynghylch y bwriad i gau'r Swyddfa Basbort yng Nghasnewydd o ystyried yr effaith ddifrifol y byddai hynny'n ei chael ar yr economi leol ac ar y rheini yng Nghymru sy'n dibynnu ar y gwasanaethau a ddarperir yno. EAQ(3)3167(FM)

**14.43**
**Cwestiwn Brys 2**

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cael ynghylch unrhyw benderfyniad gan Lywodraeth y DU i ddileu Llais Defnyddwyr a goblygiadau hynny i Gymru a hawliau dinasyddion a defnyddwyr. EAQ(3)3168(FM)

………………………

**14.50**
**Pwynt o drefn**

Cododd Jonathan Morgan bwynt o drefn drwy ofyn i'r Llywydd gadarnhau a oedd cwestiynau i'r Prif Weinidog ynghylch y Cod Gweinidogol yn dderbyniol. Cyfeiriodd y Llywydd at ddyfarniad blaenorol mai mater i'r Prif Weinidog oedd dilyn y Cod Gweinidogol. Nododd mai ceisiadau i ymchwilio i ymddygiad Gweinidogion oedd cyfeiriadau diweddar at y Cod Gweinidogol, a bod y Llywydd o'r farn mai nid dyma'r ffordd briodol o wneud cwyn. Dyfarnodd y Llywydd nad oedd cynnal neu ganlyniad unrhyw ymchwiliad yn fater priodol i ofyn cwestiynau yn eu cylch yn y Siambr, er fod trafod a chyfeirio at y Cod Gweinidogol, a chyfrifoldebau'r Prif Weinidog yn gyffredinol, yn dderbyniol.

………………………

**14.54**
**Eitem 2: Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

………………………

**15.11**
**Eitem 3: Datganiad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol: Cynigion Llywodraeth y DU ar Ddiwygio'r Heddlu**

………………………

**15.52**
**Eitem 4: Datganiad gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes: Y Strategaeth Addysg Uwch**

………………………

**16.52**
**Cynnig i ohirio'r Rheolau Sefydlog**

**NDM4556 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 35.6 a 35.8:

Yn atal dros dro Reol Sefydlog 7.18 (i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 7.19 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno gwelliannau o leiaf dri diwrnod gwaith cyn eu trafod er mwyn gallu ystyried Cynnig Heb Ddyddiad Trafod (NNDM4555), ac unrhyw welliannau a gyflwynir yn ei gylch, yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 12 Hydref 2010.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

………………………

**16.52**
**Eitem 5: Dadl ar Adroddiad Terfynol Holtham (60 munud)**
**NNDM4555 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r adroddiad terfynol gan y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru;

2. Yn cymeradwyo argymhellion y Comisiwn ynghylch sicrhau cyllid tecach i Gymru, gan gynnwys cyflwyno, drwy ychwanegu at fformwla presennol Barnett, ddull ariannu gwaelodol, ac yna ddiwygio'r fformwla yn ehangach;

3. Yn cytuno bod yn rhaid i'r gwaith o ddadlau'r achos â Llywodraeth y DU dros gyllid tecach barhau'n brif flaenoriaeth i Lywodraeth bresennol y Cynulliad;

4. Yn croesawu’r ystyriaeth fanwl y mae’r Comisiwn yn ei rhoi i’r achos dros ddatganoli pwerau cyllidol i Gymru, a fydd yn fater i’w ystyried gan bobl Cymru yn y dyfodol; ac

5. Yn croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth y DU o’r pryderon a fynegwyd gan Gomisiwn Holtham ynghylch y system gyllido bresennol ar gyfer Cymru.

*Gallwch weld copi o adroddiad terfynol y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru yn:*
http://cymru.gov.uk/icffw/home/report/fundingsettlement/?skip=1&lang=cy

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

...........................

**Eitem 5: Dadl ar Adroddiad Terfynol Holtham - NDM 4548 TYNNWYD YN ÔL**

...........................

**17.53**
**Eitem 6: Dadl ar Dechrau’n Deg**

**NDM4549 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu casgliadau ac argymhellion yr ail werthusiad interim o Dechrau’n Deg.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod y Gwerthusiad Interim o Dechrau'n Deg yn amlygu bod "rhai materion yn parhau parthed yr amrywiad ar draws Partneriaethau o ran darparu hawliau Dechrau'n Deg a'r tensiwn rhwng yr hawliau a ragnodir yn genedlaethol a'u priodoldeb ar lefel leol" ac y dylid adolygu hyn yn gyson a'i ddatrys lle mae angen.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 29 | 44 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod tystiolaeth gan Sefydliad Joseph Rowntree yn dynodi bod mwy o blant mewn tlodi yn byw y tu allan i ardaloedd dynodedig Cymorth a Dechrau'n Deg nag yn yr ardaloedd ac felly mae'n cydnabod yr angen i drosglwyddo i ardaloedd y tu allan i'r rhaglenni sydd wedi cael eu targedu'n ddaearyddol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 29 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen am ymyriadau ataliol sy'n dylanwadu ar ganlyniadau i blant a'u bod yn cael eu darparu gan bartneriaethau strategol rhwng y sector statudol, y sector gwirfoddol a'r sector preifat.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 29 | 44 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ardal yn methu helpu cyfran uchel iawn o blant o gartrefi difreintiedig ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi rhagor o ddisgresiwn i awdurdodau lleol wario arian Dechrau'n Deg mewn ffordd sy'n addas i anghenion eu cymunedau lleol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 29 | 44 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM4549 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu casgliadau ac argymhellion yr ail werthusiad interim o Dechrau’n Deg.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 1 | 44 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

...........................

**18.37**
**Cyfnod pleidleisio**

**Daeth y cyfarfod i ben am 18.39**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mercher 13 Hydref 2010.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**